

R I C H A R D S

M O O R E H E A D & L A I N G L T D

P L A N N I N G | L A N D S C A P E | E N V I R O N M E N T

**SAFLE RHEOLI FFINIAU GOGLEDD CYMRU PLOT 9 PARC CYBI - GORCHYMYN
DATBLYGU ARBENNIG 2021**

Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog

ar gyfer

Mott MacDonald

Mehefin 2021

3157/11

(Cod Adroddiad BCP21-001)



SAFLE RHEOLI FFINIAU GOGLEDD CYMRU PLOT 9 PARC CYBI - GORCHYMYN
DATBLYGU ARBENNIG 2021

Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog

ar gyfer

Mott MacDonald

Mehefin 2021

3157/11

©Hawlfraint. Mae'r adroddiad hwn a'r ffigurau yn parhau i fod yn hawlfraint i Richards, Moorehead & Laing Ltd.

GWEITHDREFNAU SICRHAU ANSAWDD: QP4, QP7.3Doc6

Paratowyd gan: Donna Hall Dyddiad: 18/06/2021

Gwiriwyd gan: Jon Stoddard Dyddiad: 18/06/2021

Cymeradwywyd gan: Jon Stoddard Dyddiad: 18/06/2021

Ewch i wefan RML yn www.rmlconsult.com i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gwasanaethau a'n staff.

COFNOD CYHOEDDI

Adolygiad	Dyddiad	Disgrifiad	Paratowyd gan	Gwiriwyd gan
01	18/06/2021	Drafft i'w adolygu	DH	JS



CYNNWYS

	Rhif tudalen
1	1
1.1	1
1.2	1
1.3	1
1.4	2
1.5	2
1.6	2
1.7	2
2	4
2.1	4
2.2	5
2.3	6
2.4	6
2.5	6
3	8
3.1	8
3.2	8
3.3	10
3.4	10
3.5	11
3.6	11
3.7	12
4	14
4.1	14
4.2	14
4.3	14
4.4	17
4.5	17



5	CASGLIADAU	18
5.1	Crynodeb o statws madfallod dŵr cribog ar y safle	18

Rhestr Tablau

Tabl 1.	Cwmpas yr Arolwg	9
Tabl 2.	Sgôr HSI	10
Tabl 3.	Rhifau'r pyllau dŵr a chyfyngiadau arolygu	12
Tabl 4.	Sgôr HSI – Pyllau Dŵr	15
Tabl 5.	Sgôr HSI – Ffosydd	16
Tabl 6.	Newidynnau tywydd	17
Tabl 7.	Disgrifiadau a lluniau o'r pyllau dŵr	v
Tabl 8.	Canlyniadau arolygu	xi

Atodiadau

Atodiad A: Cynllun y safle a lleoliad y pyllau dŵr

Atodiad B: Data COFNOD – Cyhoeddus


Atodiad C: Disgrifiadau a lluniau o'r pyllau dŵr

Atodiad D: Canlyniadau eDNA

Atodiad E: Canlyniadau arolygu



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
 email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
 Tel +44(0)1824 704366
 Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Crynodeb

Comisiynwyd Richards, Moorehead & Laing Ltd (RML) gan Mott MacDonald i gynnal arolygon ar gyfer madfallod dŵr cribog *Triturus cristatus* i gefnogi datblygiad arfaethedig ym Mhlot 9 Parc Cybi, Caergybi ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau parhaol.

Nodau'r arolwg a'r adroddiad yw darparu gwybodaeth am statws madfallod dŵr cribog yn ardal yr astudiaeth i hysbysu'r asesiad ecolegol ehangach ar gyfer y cynllun.

Y cwmpas y cytunwyd arno mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol oedd cynnal arolwg Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI), eDNA ac arolygon presenoldeb /absenoldeb i bob pwll dŵr o fewn 250 metr i'r ffin Llinell Goch ac i gynnal HSI ac eDNA dim ond i'r pyllau dŵr hynny o fewn 250 - 300 medr o'r ffin Llinell Goch.

Roedd y potensial i gyrff dŵr gynnal madfallod dŵr cribog o ran addasrwydd cynefinoedd yn amrywio o ragorol i islaw cyfartalog.

Ni chofnodwyd unrhyw fadfallod dŵr cribog yn unrhyw un o'r pyllau dŵr a arolygwyd ar y safle, nid yn ystod yr arolygon presenoldeb / absenoldeb, nac o'r samplau eDNA a gasglwyd. Hefyd, roedd arolygon blaenorol i byllau dŵr yn yr ardal arolygu hefyd yn negyddol ar gyfer madfallod dŵr cribog. O ystyried y dystiolaeth hyd yma, ystyrir bod statws cadwraeth presennol madfallod dŵr cribog yn yr ardal arolygu yn anffafriol.

Mae rhywogaethau amffibiaid a gofnodwyd yn cynnwys madfallod dŵr balfog, llyffantod melyn a llyffantod dafadennog. Dylai mesurau lliniaru geisio cadw a/neu greu cynefin sy'n cynnal poblogaethau amffibiaid y presennol (a'r dyfodol) (gan gynnwys rhywogaethau Adran 7) a nodwyd.



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
Tel +44(0)1824 704366
Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



1 CYFLWYNIAD

1.1 Cwmpas y comisiwn

1.1.1 Comisiynwyd Richards, Moorehead & Laing Ltd (RML) gan Mott MacDonald ('y Cleient') i gynnal arolygon ar gyfer madfallod dŵr cribog *Triturus cristatus* i gefnogi'r datblygiad ym Mhlot 9 Parc Cybi, Caergybi ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau parhaol (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y 'Cynllun').

1.2 Cefndir i'r cynllun

1.2.1 Mae diben y datblygiad arfaethedig hwn yn hanfodol i gynnal llif masnach ac i ganiatáu nwyddau i groesi ffiniau â chyn lleied o wrthdaro â phosibl. Bydd y Safle Rheoli Ffiniau yn darparu cyfleuster o'r fath ac yn caniatáu i brosesau ffin a rheoli traffig hanfodol i ddigwydd. Bydd yn darparu'r seilwaith angenrheidiol i alluogi'r llif masnach i'r UE ac oddi yno ar ôl diwedd cyfnod pontio'r UE.

1.3 Disgrifiad o'r safle

1.3.1 Byddai'r Cynllun yn cael ei leoli ar Blot 9 Stad Ddiwydiannol Parc Cybi, ar Ynys Môn oddi ar arfordir Cymru. Mae Parc Cybi wedi'i leoli tua 1.5 milltir i'r de-ddwyrain o Borthladd Caergybi ac mae Plot 9 yn cael ei ddefnyddio fel cyfleuster stacio cerbydau nwyddau trwm ar hyn o bryd.

1.3.2 I'r gogledd-orllewin o'r safle y mae gorsaf gwasanaethau arhosfan lorïau Road King a gwesty Premier Inn, ac mae plotiau heb eu datblygu ar y stad ddiwydiannol wedi'u lleoli i'r gogledd ynghyd â Gwibffordd Gogledd Cymru (A55) a siambr gladdu Trefnath i'r dwyrain. I'r de ceir tir amaethyddol ac mae eiddo preswyl wedi'i leoli i'r de-orllewin.

1.3.3 Mae'r safle yn cynnwys 6.26 hectar (15.47 erw) ac wedi'i leoli ar dir i'r de-orllewin o Barc Cybi ar Blot 9 ar gyrion Caergybi a cheir yno ar hyn o bryd lawr caled wedi'i amgylchynu gan glytiau cyfyngedig o lystyfiant a brigiadau caregog, wedi'u



hamgylchynu gan ffens derfyn gwrth-stoc. Mae'r safle ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru.

1.3.4 Ceir mynediad i'r safle drwy ffordd ddsbarthu (Parc Cybi), yn ymestyn tua'r de o gylchfan ar yr A5153 i'r gorllewin o gyffordd 2 Gwibffordd Gogledd Cymru yr A55.

1.3.5 Darperir cynllun lleoliad y safle a ffin y safle yn **Atodiad A**.

1.4 Cynigion y cynllun

1.4.1 Bydd y Cynllun yn cynnwys Safle Rheoli Ffiniau ar Blot 9, Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caergybi. Bydd yn cynnwys cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch treuliadwy a chynnyrch nad yw'n dreuliadwy, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr a cheffylau.

1.5 Nodau ac amcanion

1.5.1 Nodau'r arolwg a'r adroddiad yw darparu gwybodaeth am statws madfallod dŵr cribog yn ardal yr astudiaeth i hysbysu'r asesiad ecolegol ehangach ar gyfer y cynllun.

1.6 Strwythur yr adroddiad

1.6.1 Dyma strwythur yr adroddiad hwn:

- Adran 1: Cyflwyniad
- Adran 2: Deddfwriaeth a pholisïau cynllunio
- Adran 3: Dull arolygu
- Adran 4: Canlyniadau
- Adran 5: Casgliadau

1.7 Personél a sicrwydd ansawdd

1.7.1 Mae RML yn bractis cofrestredig gyda'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol.




Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



- 1.7.2 Arweiniwyd yr arolygon gan Donna Hall (arolygydd trwyddedig RML S086106-2), Robert Jones (Asiant Achrededig RML ar S086106-2) wedi'u cynorthwyo gan Aneira Jones (Mott MacDonald).
- 1.7.3 Mae Donna yn aelod llawn o'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol ac mae ganddi dros 17 mlynedd o brofiad o weithio mewn ymgynghoriaethau amlddisgyblaeth. Mae Donna yn meddu ar drwyddedau arolygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ar gyfer ystlumod, madfallod dŵr cribog sy'n cwmpasu pob sir yng Nghymru a Lloegr a thrwydded arolygu ar gyfer cimwch afon crafangog gwyn (Lloegr yn unig). Mae gan Donna brofiad o gynnal arolygon madfallod dŵr cribog niferus, gan gynnal amcangyfrifon poblogaeth o ddwy boblogaeth ar Ynys Môn i ddechrau, yn rhan o'i MSc yn 2002. Ers hynny, mae arolygon ar gyfer madfallod dŵr cribog wedi bod yn rhan o'i gwaith yn ystod bron i bob tymor, gan gynnwys bod yn ddeiliad trwydded madfallod dŵr cribog a enwyd ar gyfer cynllun ffordd mawr yn Lloegr ac fel arweinydd herpetoffawna ar gyfer Cam 2b HS2 am gyfnod cyfyngedig pan oedd yn gweithio i Capita.
- 1.7.4 Mae'r ecolegydd Rob Jones wedi gwneud gwaith ecoleg ers deng mlynedd. Mae wedi cynnal arolygon niferus gan gynnwys ar gyfer ystlumod, amffibiaid, ymlusgiaid a madfallod dŵr cribog yn ogystal â chyflawni'r swyddogaeth Clerc Gwaith Ecolegol ar gyfer nifer o gynlluniau.



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
Tel +44(0)1824 704366
Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



2 DEDDFWRIAETH A PHOLISIAU CYNLLUNIO

2.1 Madfallod dŵr cribog

2.1.1 Mae madfallod dŵr cribog yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)¹ a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Rheoliadau 2017) fel y'u diwygiwyd². Mae'r warchodaeth a gynigir o dan Reoliadau 2017 yn gorgyffwrdd â Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) ond ar wahân iddi.

2.1.2 O dan Atodlen 2 Rheoliadau 2017 (fel y'u diwygiwyd) mae'n drosedd:

- dal, anafu neu ladd madfall ddŵr gribog yn fwriadol
- tarfu ar fadfall ddŵr gribog yn fwriadol
- difrodi neu ddinistrio safle bridio neu orffwysfan madfall ddŵr gribog

2.1.3 O dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) mae'n drosedd:

- lladd neu anafu neu gymryd madfall ddŵr gribog yn fwriadol
- difrodi neu ddinistrio neu rwystro mynediad yn fwriadol at unrhyw adeiladwaith neu le y mae madfall ddŵr gribog yn ei ddefnyddio ar gyfer lloches neu warchodaeth
- tarfu ar fadfall ddŵr gribog yn fwriadol pan fo mewn lle y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer lloches neu warchodaeth
- rhwystro mynediad at unrhyw adeiladwaith neu le y mae madfall ddŵr gribog yn ei ddefnyddio ar gyfer lloches neu warchodaeth

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1981/69>

² <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2017/1012/contents/made>.

Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidogion Cymru wedi gwneud newidiadau i rannau o'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) fel eu bod yn gweithredu yn effeithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn golygu trosglwyddo swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau priodol yng Nghymru neu Loegr. Mae'r holl brosesau neu delerau eraill yn Rheoliadau 2017 yn aros yr un fath ac mae canllawiau presennol dal yn berthnasol. Nid yw rhwymedigaethau awdurdod cymwys yn Rheoliadau 2017 am warchod safleoedd neu rywogaethau yn newid. Corff cyhoeddus, ymgymerydd statudol, gweinidog neu adran llywodraeth, neu unrhyw un sy'n dal swydd gyhoeddus yw awdurdod cymwys.



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



2.1.4 Mae'r pedair rhywogaeth eang o amffibiad, y *Lissotriton vulgaris* gyffredin a'r madfallod dŵr balfog *L. helveticus*, y llyffant melyn *Rana temporaria* a'r llyffant dafadenog *Bufo bufo* yn cael gwarchodaeth gyfyngedig yn unig gan Adran 9(5) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r adran hon yn gwahardd gwerthu, ffeirio, cyfnewid, cludo i werthu a hysbysebu i werthu neu i brynu.

2.2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016³

2.2.1 Wrth ystyried sut i ddatblygu a gwneud defnydd o'r safle hwn, efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried ei dyletswydd gyffredinol i wella bioamrywiaeth.

2.2.2 Mae deddfwriaeth Cymru yn cadarnhau ymrwymiad cyfreithiol Cymru i warchod bioamrywiaeth. Cyflwynodd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 y "ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd A6)" ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol eu bod yn "ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol".

2.2.3 Mae Adran 7 y Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

2.2.4 Y llyffant dafadenog yw'r rhywogaeth amffibiad yn Adran 7 yr ystyrir ei bod yn 'organeddau byw o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru' (ac y gellid ei gweld yn ystod yr arolygon ar gyfer madfallod dŵr cribog).

³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh>

2.3 Polisi Cynllunio Cymru 11⁴

2.3.1 Mae Adran 6.4.3 Polisi Cynllunio Cymru 11 yn cyflwyno cyfrifoldebau'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrth asesu cynigion datblygu a'u heffeithiau ar fioamrywiaeth. Mae'r ddogfen hon yn nodi:

'Mae gan y system gynllunio rôl allweddol o ran helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu cydnherthedd ecosystemau, ar wahanol raddfeydd, drwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i ddiogelu rhag colled a sicrhau gwelliant.

2.3.2 Mae'n nodi'r gofyniad i awdurdodau cynllunio ddangos eu bod wedi ceisio cyflawni dyletswyddau a bodloni gofynion Adran 6 Deddf yr Amgylchedd 2016 trwy gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

2.4 Nodyn Cyngor Technegol 5⁵

2.4.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 (Cynllunio a Chadwraeth Natur) yn cynnig cyngor ynghylch sut dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Dylid darllen y nodyn cyfarwyddyd hwn ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru 11.

2.5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn⁶

2.5.1 Y cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd ar gyfer Ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar y cyd Gwynedd a Môn. Mabwysiadwyd y CDLI yn 2011 ac mae'n ddilys tan 2026. Mae polisiau sy'n berthnasol i'r cynllun hwn yn cynnwys:

2.5.2 **Polisi AMG 5** - Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol, yn nodi'r angen am Asesiad Ecolegol, sy'n datgan:

Dylai cynigion warchod a, lle bo'n briodol, wella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei nodi'n bwysig i'r ardal leol trwy:

⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11.pdf>

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan5-nature-conservation.pdf>


⁶ [Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn \(pdf\)](#)

a. Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol trwy leoli datblygiad yn sensitif.

- 2.5.3 **Polisi Strategol PS 19:** Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol, sy'n datgan, ymhlith pethau eraill, *'wrth benderfynu ar gais cynllunio, bydd angen rhoi ystyriaeth i ddiogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol.*



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
Tel +44(0)1824 704366
Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



3 DULL AROLYGU

3.1 Astudiaeth ddesg

- 3.1.1 Cysylltwyd â Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru (COFNOD) ar 12/11/2020 ynghylch Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol a gynhaliwyd ar y safle gan RML i lywio cynigion ar gyfer y parc cerbydau nwyddau trwm dros dro⁷. Cynhaliwyd yr astudiaeth ddesg hon i gael gfael ar gofnodion o unrhyw rywogaethau blaenoriaeth, safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol o fewn 2 gilomedr i'r safle a safleoedd dynodedig o fewn 10 cilomedr.
- 3.1.2 Adolygwyd y data hyn o ran cofnodion o fadfallod dŵr cribog o fewn 2 gilometr i'r safle.
- 3.1.3 Chwiliwyd am leoliadau pyllau dŵr ar y safle, ac o fewn 1 cilometr i'r safle trwy fapio o'r awyr ac Arolwg Ordnans.

3.2 Ymgynghoriad a chwmpas yr arolygiad

- 3.2.1 Penderfynwyd ar gwmpas yr arolwg yn ystod ymgynghoriad rhwng Mott MacDonald, Matthew Ellis, uwch gynghorydd rhywogaethau a warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru a Dave Cowley, cynghorydd ecolegol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (Cyngor Ynys Môn).
- 3.2.2 Y cwmpas y cytunwyd arno oedd cynnal HSI, eDNA ac arolygon presenoldeb / absenoldeb ym mhob pwll dŵr o fewn 250 metr i'r ffin Llinell Goch a chynnal HSI a eDNA yn y pyllau dŵr hynny o fewn 250 – 300 metr i'r ffin Llinell Goch yn unig. Gweler **Tabl 1**. Darperir lleoliadau pyllau dŵr ar y cynllun yn **Atodiad A**.

⁷ Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol – Richards, Moorehead & Laing Ltd (Tachwedd 2020)



Tabl 1. Cwmpas yr Arolwg

Cyf y corff dŵr (Cyf Grid)	Cwmpas yr Arolwg	Clustogfa
Pwll Dŵr 1 (SH 25929 80798)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI)	300 metr
Pwll Dŵr 2 (SH 25516 80778)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI)	300 metr
Pwll Dŵr 3 (SH 25825 80418)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) Arolwg (4 ymweliad arolygu gan gynnwys trapio mewn poteli, chwilio am wyau, rhwydo a defnyddio tortsh)	250 metr
Pwll Dŵr 4 (SH 25804 80416)	Defnyddio tortsh yn unig (pwll arafu a grëwyd o'r newydd)	250 metr
Pwll Dŵr 5 (SH 25247 80620)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI)	300 metr
Pwll Dŵr 6 (SH 25351 80422)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) Arolwg (4 ymweliad arolygu gan gynnwys trapio mewn poteli, chwilio am wyau, rhwydo a defnyddio tortsh)	250 metr
Pwll Dŵr 7 (SH 25441 80230)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) Arolwg (4 ymweliad arolygu gan gynnwys trapio mewn poteli, chwilio am wyau, rhwydo a defnyddio tortsh)	250 metr
Ffos 1 (SH 25421 80653)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) Arolwg (4 ymweliad arolygu gan gynnwys trapio mewn poteli, chwilio am wyau, rhwydo a defnyddio tortsh)	250 metr
Ffos 2 (SH 25843 80399)	eDNA a Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) Arolwg (4 ymweliad arolygu gan gynnwys trapio mewn poteli, chwilio am wyau, rhwydo a defnyddio tortsh)	250 metr

- 3.2.3 Cytunwyd hefyd y byddai arolygon tortsh yn dderbyniol i bwll arafu a grëwyd o'r newydd yn unig.
- 3.2.4 Ceisiwyd ymgynghoriad ag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ganlyniadau eDNA pwll dŵr cydbwysu wedi'i reoli a'i fonitro gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Pwll Dŵr 1).
- 3.2.5 Darperir manylion llawn y dulliau yn adrannau 3.4 a 3.5.

3.3 Adolygiad o adroddiadau blaenorol

3.3.1 Cynhaliwyd adolygiad o adroddiadau arolygu blaenorol er mwyn cael gwybodaeth am arolygon a chanlyniadau madfallod dŵr cribog yn yr ardal ehangach. Dyma'r adroddiadau a adolygwyd:

- Gorffennaf 2019: Datganiad Amgylcheddol Prosiect Morlais Pennod 19: Ecoleg ar y Tir Argraffiad III - RoyalHaskoningDHV
- Mehefin 2017: Parc Cybi – Canolfan Logisteg ar ran Jacobs UK. Cam Estynedig 1 Arolwg Cynefin ac Adroddiad DNA Amgylcheddol. Avianecology.

3.4 Asesiad Addasrwydd Cynefin – Madfallod Dŵr Cribog

3.4.1 Yn seiliedig ar y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer yr arolwg (adran 3.2.2) roedd wyth o'r naw corff dŵr a arolygwyd yn destun Asesiad Addasrwydd Cynefin (Gweler **Tabl 1**).

3.4.2 Aseswyd pob un o'r pyllau dŵr hyn gan arolygon Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd (HSI) yn y maes ac yna trwy astudiaeth ddesg (ar gyfer dwysedd pyllau dŵr trwy fapio Arolwg Ordans a delweddau o'r awyr) gan ddefnyddio Nodyn Cyngor 5 Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid y Deyrnas Unedig (ARG UK) (ARG, 2010)⁸. Cynhaliwyd yr arolygon ar 28 Ebrill 2021 gan ddau arolygydd.

3.4.3 Mae'r asesiad HSI yn dilyn proses asesu safonol gan ddefnyddio elfennau cynefin fel ansawdd dŵr, presenoldeb pysgod a/neu adar y dŵr, ac ansawdd cynefin tir cyfagos i ganfod sgôr neu 'fynegai' addasrwydd. Ystyrir bod cyrff dŵr â sgoriau uchel yn fwy tebygol o gynnal madfallod dŵr cribog na'r rhai â sgoriau is. Rhestrir sgoriau HSI ac addasrwydd tybiedig y pyllau dŵr i gynnal madfallod dŵr cribog yn **Nhabl 2**.

Tabl 2. Sgôr HSI

Sgôr HSI	Addasrwydd Cynefin
<0.5	Addasrwydd gwael
0.5 – 0.59	Addasrwydd islaw'r cyfartaledd
0.6 - 0.69	Addasrwydd cyfartalog

⁸ ARG UK *Advice Note 5: Great Crested Newt Habitat Suitability Index (2010)* ARG. [Gwelwyd ar 17/10/2020]: <https://www.arguk.org/infoadvice/advice-notes/9-great-crested-newt-habitat-suitability-index-arg-advice-note-5/file>

0.7 – 0.79	Addasrwydd da
> 0.8	Addasrwydd rhagorol

3.5 Methodoleg eDNA

- 3.5.1 Casglwyd samplau gan arolygydd trwyddedig RML (rhif trwydded S088718/2) a chynorthwydd ar y cyd â'r HSI ar 28 Ebrill 2021.
- 3.5.2 Dilynodd y protocol ar gyfer samplu yr hyn a amlinellwyd yn y nodyn cyngor technegol ar gyfer samplu madfallod dŵr cribog yn y maes ac yn y labordy sy'n ei gwneud yn ofynnol casglu is-samplau 20 x 30 ml o'r pwll dŵr, wedi'u gwasgaru mor gyfartal â phosibl o gwmpas ymyl y pwll dŵr lle'r oedd mynediad yn bosibl.
- 3.5.3 Ar ôl eu casglu, anfonwyd y samplau i ffwrdd i ADAS i gael eu dadansoddi.
- 3.5.4 Mae canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru⁹ yn derbyn y defnydd o arolygon eDNA fel tystiolaeth o bresenoldeb neu absenoldeb madfallod dŵr cribog, cyn belled ag y bo samplau yn cael eu cymryd pan fo madfallod dŵr yn debygol o fod yn bresennol. Dim ond canlyniadau arolygu a gesglir rhwng canol mis Ebrill a 30 Mehefin y gwnaiff Cyfoeth Naturiol Cymru eu derbyn¹⁰, mewn cydymffurfiad llym â'r nodyn cyngor technegol cyhoeddedig.

3.6 Arolygon Presenoldeb / Absenoldeb

- 3.6.1 Cynhaliwyd arolygon presenoldeb – absenoldeb o fis Ebrill tan fis Mai 2021. Dilynodd yr arolygon y fethodoleg a nodir yn y *Great Crested Newt Conservation Handbook*¹¹ ac roeddent yn cynnwys trapio mewn poteli, arolygon tortsh a chwilio am wyau. Yn ystod yr arolygon, amcangyfrifwyd afloywder a gorchudd llystyfiant gan roi sgôr iddynt ar raddfa o 1 (clir / dim llystyfiant) i 5 (afloyw iawn / pwll dŵr wedi'i guddio gan llystyfiant).

⁹ <https://naturalresources.wales/media/3510/canllawiau-ar-ddefnyddio-dna-i-samplu-madfall-ddwr-gribog.pdf>

¹⁰ Sylwer: Mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd; fodd bynnag, dyma'r canllawiau cyhoeddedig cyfredol ar adeg yr arolygon a'r adroddiadau.

¹¹ Langton, T.E.S., Beckett, C.L., a Foster, J.P. (2001), *Great Crested Newt Conservation Handbook*, Froglife, Halesworth

3.7 Cyfyngiadau arolygu

- 3.7.1 Wrth gynllunio'r gwaith hwn, nodwyd pyllau dŵr ychwanegol nad oeddent wedi'u cofnodi o'r blaen. Roedd dau bwll pysgod gardd addurniadol wedi'u lleoli yn agos at Bwll Dŵr 7 yn destun arolygon tortsh yn unig.
- 3.7.2 Roedd gwahanol gyfyngiadau i'r gwaith arolygu gan gynnwys y ffaith nad oedd pyllau dŵr yn hygyrch ac afloywder uchel neu orchudd llystyfiant dwys a glannau serth. Caiff y cyfyngiadau ar gyfer pob pwll dŵr yn yr ardal arolygu eu crynhoi yn **Nhabl 3** ynghyd â'r rhif a roddwyd i'r pwll dŵr ar gyfer arolwg madfallod dŵr cribog. Er bod cyfyngiadau, ystyrir na wnaeth y rhain effeithio ar brotocol yr arolygiad, a bod manau digonol yn destun dulliau samplu a ddisgrifiwyd er mwyn cael y canlyniadau a bodloni amcan yr arolwg.

Tabl 3. Rhifau'r pyllau dŵr a chyfyngiadau arolygu

Cyf y corff dŵr	Sylwadau / cyfyngiadau
Pwll Dŵr 1	Dim mynediad i gynnal eDNA. Roedd y pwll dŵr hwn yn destun eDNA yn 2020 yn rhan o broses dylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu A55 Cynllun Priffyrdd y DU. Gofynnwyd am y canlyniadau ac fe'u cafwyd.
Pwll Dŵr 2	Cyfyngwyd arolygon tortsh gan llystyfiant dwys
Pwll Dŵr 3	Cyfyngwyd arolygon tortsh gan llystyfiant dwys
Pwll Dŵr 4	Pwll arafu newydd, yn destun arolwg tortsh yn unig. Afloywder uchel
Pwll Dŵr 5	Dim cyfyngiadau
Pwll Dŵr 6	Mynediad wedi'i gyfyngu i tua 30% o'r ymyl gan frigiad caregog
Pwll Dŵr 7	Dim cyfyngiadau. Roedd dau bwll pysgod addurniadol ychwanegol wedi'u lleoli mewn gerddi cyfagos yn destun arolygon tortsh
Ffos 1	Cyfyngwyd mynediad oherwydd cyrs dwys
Ffos 2	Cyfyngwyd arolygon tortsh gan llystyfiant dwys

- 3.7.3 Mae cofnodion rhywogaethau a gafwyd gan COFNOD yn seiliedig ar ymdrech yr arolygydd a'r cofnodion oedd ar gael, ac felly gallai diffyg cofnodion fod oherwydd diffyg gwaith arolygu yn yr ardal benodol honno yn hytrach nag absenoldeb y rhywogaeth.
- 3.7.4 Bydd y manylion yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn ddilys am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad yr arolygon (Mai 2021), ac wedi hynny dylid adolygu dilysrwydd yr asesiad

hwn os nad oes unrhyw waith safle wedi cychwyn, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i benderfynu a oes angen diweddariadau pellach.



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
Tel +44(0)1824 704366
Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



4 CANLYNIADAU

4.1 Astudiaeth ddesg

- 4.1.1 Cafwyd dau gofnod o fadfallod dŵr cribog o fewn 2 gilometr i'r safle yn ystod y deng mlynedd diwethaf, a gofnodwyd yn 2017. Cofnodwyd y rhain tua 1.9 cilometr o'r safle yn Stablau Marchogaeth Gors Wen, Lôn Plas, Caergybi, Ynys Môn.
- 4.1.2 Ceir cofnod hanesyddol (o 2007) ar gyfer madfall ddŵr balfog a gofnodwyd tua 300 metr i'r gogledd-ddwyrain ym Mhwll Dŵr 1.
- 4.1.3 Mae cofnodion amffibiaid eraill o fewn 2 gilometr ar gyfer y llyffant dafadennog a wnaed tua 1.5 cilometr o'r safle.
- 4.1.4 Darperir dyfyniad o ddata COFNOD yn **Atodiad B**.

4.2 Adolygiad o adroddiadau blaenorol

- 4.2.1 Amlygodd adolygiad o adroddiadau blaenorol a nodir yn adran 3.3.1 y canlyniadau canlynol¹²:
- Gorffennaf 2019: Datganiad Amgylcheddol Prosiect Morlais Pennod 19: arolygon eDNA a gynhaliwyd ym Mhwll Dŵr 1 a Phwll Dŵr 2 a chymerwyd samplau ym mis Mehefin 2018, y ddau yn negyddol. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon pellach.
 - Mehefin 2017: Parc Cybi – Canolfan Logisteg ar ran Jacobs UK: cynhaliwyd arolygon eDNA ym Mhwll Dŵr 1 a Phwll Dŵr 5 a chymerwyd samplau ym mis Mai 2016, y ddau yn negyddol. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon pellach.

4.3 Asesiad Addasrwydd Cynefin – Madfallod Dŵr Cribog

- 4.3.1 Darperir canlyniadau'r HSI yn **Nhablau 4 a 5**.
- 4.3.2 Darperir disgrifiadau a lluniau o'r Pyllau Dŵr yn **Atodiad C**.

¹² Darperir y rhain er gwybodaeth yn unig i gael cipolwg o'r presenoldeb posibl blaenorol o fadfallod dŵr cribog mewn pyllau dŵr sy'n rhan o'r arolwg hwn. Derbynnir bod madfallod dŵr cribog yn rhywogaethau symudol ac y gall poblogaethau a phresenoldeb newid o flwyddyn i flwyddyn.

4.3.3 Roedd yr amodau tywydd yn ystod yr arolwg yn berffaith, sych, llonydd â thymheredd amgylcheddol o 12 Gradd C.

4.3.4 Ni chynhaliwyd unrhyw HSI ar y pwll dŵr arafu newydd, sef Pwll Dŵr 4.

Tabl 4. Sgôr HSI – Pyllau Dŵr

SI #	Disgrifiad SI	Gwerth SI PD1	Gwerth SI PD2	Gwerth SI PD3	Gwerth SI PD5	Gwerth SI PD6	Gwerth SI PD7
1	Lleoliad daearyddol	0.5	0.5	0.5	0.5	0.5	0.5
2	Arwynebedd y Pwll Dŵr	0.6	1.0	0.6	1.0	0.2	0.2
3	Sefydlogrwyd d y Pwll Dŵr	0.5	0.5	0.5	0.9	0.5	0.9
4	Ansawdd dŵr	0.67	0.67	0.67	0.67	0.33	1.0
5	Cysgod	1.0	1.0	1.0	1.0	1.0	1.0
6	Effaith adar y dŵr	1.0	0.67	1.0	0.67	0.67	0.67
7	Presenoldeb pysgod	0.33	1.0	1.0	1.0	1.0	1.0
8	Dwysedd y Pwll Dŵr (pyllau dŵr o fewn 1 cilometr)	0.9	0.9	0.9	0.9	0.9	0.9
9	Cynefin tir	0.67	0.67	0.67	1.0	0.67	0.33
10	Gorchudd macroffytâu	0.9	1.0	1.0	0.85	0.45	0.7
Sgôr HSI		0.67	0.76	0.76	0.83	0.56	0.65
Addasrwydd y Pwll Dŵr		Cyfartalog	Da	Da	Rhagorol	Islaw'r cyfartalog	Cyfartalog



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
 email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
 Tel +44(0)1824 704366
 Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Tabl 5. Sgôr HSI – Ffosydd

SI #	Disgrifiad SI	Gwerth SI Ff1	Gwerth SI Ff2
1	Lleoliad daearyddol	0.5	0.5
2	Arwynebedd y Pwll Dŵr	0.95	0.5
3	Sefydlogrwydd y Pwll Dŵr	1.0	1.0
4	Ansawdd dŵr	0.67	0.67
5	Cysgod	1.0	1.0
6	Effaith adar y dŵr	0.67	0.67
7	Presenoldeb pysgod	1.0	1.0
8	Dwysedd y Pwll Dŵr (pyllau dŵr o fewn 1 cilometr)	0.9	0.95
9	Cynefin tir	1.0	0.67
10	Gorchudd macroffytâu	0.85	1.0
Sgôr HSI		0.83	0.77
Addasrwydd y Pwll Dŵr		Rhagorol	Da

4.3.5 Roedd y potensial i gyrff dŵr gynnal madfallod dŵr cribog o ran addasrwydd cynefinoedd yn amrywio o Bwll Dŵr 5 a Ffos 1 rhagorol i islaw'r cyfartaledd, sef Pwll Dŵr 6.

4.3.6 Mae lleoliad ardal y cynllun, o edrych arno ar Fap 1 yr Addasrwydd Cynefinoedd ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog ledled Ynys Môn¹³ o fewn ardal o ddsberthir fel un sydd o addasrwydd cynefin is, ond o fewn ardal o gynefin craidd fel y diffinnir gan Fap 2 yr un adroddiad y cyfeirir ato.

¹³ Russell, L; Starnes, T; a Wilkinson, J. (Mawrth 2017) Adroddiad Gwyddoniaeth rhif 76 Cyfoeth Naturiol Cymru. *Spatial Action Plan for Great Crested Newts in Anglesey A Manual for Achieving Favourable Conservation Status*. Adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid.

4.4 eDNA

- 4.4.1 Cafwyd canlyniadau negyddol ar gyfer presenoldeb madfallod dŵr cribog ym mhob corff dŵr a samplwyd ar gyfer eDNA.
- 4.4.2 Darperir y canlyniadau yn **Atodiad C**.
- 4.4.3 Roedd yr amodau tywydd yn ystod yr arolwg yn berffaith, sych, llonydd â thymheredd amgylcheddol o 12 Gradd C.

4.5 Arolygon Presenoldeb / Absenoldeb

- 4.5.1 Ni chofnodwyd unrhyw fadfallod dŵr cribog yn ystod yr arolygon. Cofnodwyd yr amffibiaid canlynol yn ystod yr arolygon: madfall ddŵr balfog, llyffant melyn a llyffant dafadennog. Cofnodwyd mwyafrif y madfallod dŵr balfog ym Mhwll Dŵr 3, Pwll Dŵr 7 a Ffos 1. Ni chofnodwyd unrhyw amffibiaid ym Mhwll Dŵr 6.
- 4.5.2 Darperir y canlyniadau yn **Atodiad D**.
- 4.5.3 Darperir yr amodau tywydd yn ystod yr arolygon yn **Nhabl 6**.

Tabl 6. Newidynnau tywydd

Dyddiad yr arolwg	Gorchudd cymylau (0-8)	Dyddodiad	Tymheredd aer uchaf (°C)	Tymheredd aer uchaf (°C)
28/04/2021	4	Dim	11	07
05/05/2021	5	Dim	08	06
12/05/2021	3	Dim	09	08
25/05/2021	0	Dim	10	08



5 CASGLIADAU

5.1 Crynodeb o statws madfallod dŵr cribog ar y safle

- 5.1.1 Ni chofnodwyd unrhyw fadfallod dŵr cribog yn unrhyw un o'r pyllau a arolygwyd ar y safle, nid yn ystod yr arolygon presenoldeb / absenoldeb, nac o ganlyniadau'r samplau eDNA a gasglwyd. Roedd arolygon blaenorol o byllau yn yr ardal arolygu hefyd yn negyddol ar gyfer madfallod dŵr cribog. O ystyried y dystiolaeth hyd yma, ystyrir bod statws cadwraeth presennol madfallod dŵr cribog yn yr ardal a arolygwyd yn anffafriol.
- 5.1.2 Mae canlyniadau'r HSI yn dangos yn gyffredinol bod pyllau dŵr yn yr ardal a arolygwyd yn addas i gynnal madfallod dŵr cribog ac yn cynnal amffibiaid eraill, gan gynnwys rhywogaethau Adran 7. Hefyd, ceir cynefin tir addas o amgylch y cynllun yn yr ardal ehangach gan gynnwys coetir, glaswelltir, gwrychoedd, glaswelltir corsiog a brigiadau caregog. Caiff y potensial hwn ei leihau pan fo'n destun pori trwm a/neu arferion amaethyddol.
- 5.1.3 Mae madfallod dŵr cribog yn bresennol yn yr ardal ehangach a chafwyd y cofnodion diweddaraf yn 2017. Mae'r rhain yn ymddangos dros 1 cilometr o'r cynllun ac felly nid oes unrhyw boblogaethau ffynhonnell wedi'u lleoli yn agos iawn at y safle.
- 5.1.4 Dylai mesurau lliniaru geisio cadw a/neu greu cynefin sy'n cynnal poblogaethau amffibiaid y presennol (a'r dyfodol) (gan gynnwys rhywogaethau Adran 7) a nodwyd yn ystod yr arolygon. Dylid ystyried yr ystyriaeth o'r rhywogaethau hyn o ran effeithiau posibl datblygiad, gan gynnwys yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu ym mhennod berthnasol yr asesiad ecolegol ehangach.



ATODIAD A: CYNLLUN Y SAFLE A LLEOLIAD Y PYLLAU DŴR



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Ddenwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



ATODIAD B: DATA COFNOD – CYHOEDDUS



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Dogfen Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog (06/21)

Reptiles and Amphibians										
Species Name	Grid Reference	Date	Recorder(s)	Abundance	Record Type	Site Name	Comments	Dataset ID	Lists	V
<i>Anguis fragilis</i> (Slow-worm / Neidr Ddefaid)	SH254813 (Selected from Interactive Map)	2 records, between 11/10/2011 and 14/10/2011	Recorder Name Withheld	1 Male; 1 Juvenile	Live Sighting	Penrhos	Translocated to SH253812	D1117/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	4
<i>Anguis fragilis</i> (Slow-worm / Neidr Ddefaid)	SH243803	2 records, both on 04/09/1991	Recorder Name Withheld			Holyhead	Data received via L.Howe CCW.; Garden Pond. Nr Holyhead; Altitude: <50m	D0055/001/01 , D1491/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	3
<i>Anguis fragilis</i> (Slow-worm / Neidr Ddefaid)	SH2482	Before 1903	Recorder Name Withheld			Holyhead	NBN comment: publication date	D1076/001/02	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	3
<i>Bufo bufo</i> (Common Toad / Llyffant Dafadennog)	SH254793	16/04/1983	Recorder Name Withheld			Trearddur	Data received via L.Howe CCW.	D0055/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY]	3
<i>Bufo bufo</i> (Common Toad / Llyffant Dafadennog)	SH243803 (Supplied by Original Recorder (Checked))	3 records, between 04/09/1991 and 1996	Recorder Name Withheld			Ynys Gybi	Data received via L.Howe CCW.; Garden Pond. Nr Holyhead; Altitude: <50m	D1189/001/01 , D0055/001/01 , D1491/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY]	1
<i>Bufo bufo</i> (Common Toad / Llyffant Dafadennog)	SH25667901 (Selected from Interactive Map)	19/05/2014	Recorder Name Withheld	1 Adult		Trearddur Bay Car Park	Found under felt 'tin' during translocation.	D1480/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY]	1
<i>Bufo bufo</i> (Common Toad / Llyffant Dafadennog)	SH270817	01/03/2011	Recorder Name Withheld	Several Pair	Field record	Penrhos	Altitude: 3	D1141/019/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY]	4
<i>Bufo bufo</i> (Common Toad / Llyffant Dafadennog)	SH27288140 (Selected from Interactive Map)	19/07/2018	Recorder Name Withheld	1 Adult	Live Sighting	Penrhos Coastal Park		D1480/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY]	4
<i>Bufo bufo</i> (Common Toad / Llyffant Dafadennog)	SH25737878	Spring 2008	Recorder Name Withheld			Swynol Le, Ravens Point Road, Trearddur Bay	Garden Wildlife Record version 2. Grid reference supplied. In garden.	D1117/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY]	4
<i>Lissotriton helveticus</i> (Palmate Newt / Madfall Ddwr Balfog)	SH259807 (Estimated (Centroid of Site))	07/03/2007	Recorder Name Withheld			TRA Habitat: Aluminium Works (BP)		D1185/002/01	Bern, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI]	1
<i>Lissotriton helveticus</i> (Palmate Newt / Madfall Ddwr Balfog)	SH256814 (Supplied by Original Recorder (Checked))	3 records, between 22/03/1996 and 24/03/1996	Recorder Name Withheld	5 Adult; 0 Egg; 12 Adult; 0 Egg; 6 Adult; 0 Egg		Holyhead; Penrhos Industrial Estate	Netting (no specimens), head count and egg-count	D1189/001/01	Bern, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI]	1
<i>Rana temporaria</i> (Common Frog / Llyffant Melyn)	SH243803 (Supplied by Original Recorder (Checked))	3 records, between 04/09/1991 and 1996	Recorder Name Withheld			Ynys Gybi	Data received via L.Howe CCW.; Garden Pond. Nr Holyhead; Altitude: <50m	D1189/001/01 , D0055/001/01 , D1491/001/01	Bern, HDir, WCA5, LBAP[ANG, CON, FLI]	1
<i>Rana temporaria</i> (Common Frog / Llyffant Melyn)	SH254792	March 1983	Recorder Name Withheld			Trearddur Bay	Data received via L.Howe CCW.	D0055/001/01	Bern, HDir, WCA5, LBAP[ANG, CON, FLI]	3
<i>Triturus cristatus</i> (Great Crested Newt / Madfall Ddwr Gribog)	SH243803 (Supplied by Original Recorder (Checked))	4 records, between 1991 and 1996	Recorder Name Withheld	Present		Ynys Gybi	Data received via L.Howe CCW.; Garden Pond. Nr Holyhead; Altitude: <50m	D1189/001/01 , D0055/001/01 , D1491/001/01 , D0137/001/01	Bern, EPS, HDir, RD2(UK), S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, SNP, WRE]	1
<i>Triturus cristatus</i> (Great Crested Newt / Madfall Ddwr Gribog)	SH24108171	07/05/2017	Recorder Name Withheld	1 Male; 1 Female	Live Sighting	Gors Wen Riding Stables, Plas Road, Holyhead, Anglesey	Pond 6. Results of torching and bottle trapping.	D1428/001/01	Bern, EPS, HDir, RD2(UK), S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, SNP, WRE]	4



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Dogfen Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog (06/21)

Species Name	Grid Reference	Date	Recorder(s)	Abundance	Record Type	Site Name	Comments	Dataset ID	Lists	V
<i>Triturus cristatus</i> (Great Crested Newt / Madfall Ddwr Gribog)	SH24118173	4 records, between 03/05/2017 and 25/05/2017	Recorder Name Withheld	3 Male; 1 Female; 1; 3 Female; Egg	Live Sighting	Gors Wen Riding Stables, Plas Road, Holyhead, Anglesey	Pond 7. Results of torching and bottle trapping. One newt, gender undetermined.; Pond 7. Results of torching and bottle trapping.; Pond 7. Eggs found during surveys.	D1428/001/01	Bern, EPS, HDir, RD2(UK), S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, SNP, WRE]	4
<i>Triturus cristatus</i> (Great Crested Newt / Madfall Ddwr Gribog)	SH2381	3 records, between 23/06/2004 and 21/07/2004	Recorder Name Withheld	P Adult (Exact)				D1923/001/01	Bern, EPS, HDir, RD2(UK), S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, SNP, WRE]	3
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH262795	2 records, both on 24/04/1989	Recorder Name Withheld			Trearddur Bay	Data received via L.Howe CCW.; Bracken; Altitude: 10m	D0055/001/01 , D1491/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	3
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH243803	2 records, both on 04/09/1991	Recorder Name Withheld			Holyhead	Data received via L.Howe CCW.; Garden Pond. Nr Holyhead; Altitude: <50m	D0055/001/01 , D1491/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	3
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH271804 (Estimated (Centroid of Site))	02/04/2004 - 24/05/2004	Recorder Name Withheld	1		Chainage: 40500	On boundary fence	D1185/007/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	1
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH25667901 (Selected from Interactive Map)	3 records, between 09/05/2014 and 19/05/2014	Recorder Name Withheld	1 Adult Female; Adult Male		Trearddur Bay Car Park	Found under felt 'tin' during translocation. Moved to adjacent plot at same gridref.; Found under felt 'tin' during translocation. Moved to adjacent plot in same gridref.	D1480/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	1
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH25677900 (Selected from Interactive Map)	22/09/2014	Recorder Name Withheld	1 Adult Male		Trearddur Bay	Translocated to SH28657899	D1480/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	4
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH257789	2 records, between 29/06/2004 and 30/06/2004	Recorder Name Withheld	3; 2		Trearddur Bay	Approx grid ref	D0055/001/01	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	3
<i>Zootoca vivipara</i> (Common Lizard / Madfall)	SH2482	Before 1903	Recorder Name Withheld			Holyhead	NBN comment: publication date	D1076/001/02	Bern, S7, WCA5, LBAP[ANG, CON, DEN, FLI, GWY, SNP]	3



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



ATODIAD C: DISGRIFIADAU A LLUNIAU O'R PYLLAU DŴR

Tabl 7. Disgrifiadau a lluniau o'r pyllau dŵr






Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ




email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com



Tel +44(0)1824 704366


Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Cyf corff dŵr	Disgrifiad o'r Pwll Dŵr	Llun o'r Pwll Dŵr
Pwll Dŵr 1	Pwll dŵr arafu yr oedd mynediad ato wedi'i gyfyngu. Mae'r pwll dŵr tua 3000 m ² o faint ac fe'i hadeiladwyd yn rhan o'r A55. Roedd dŵr agored a lleiniau dwys o Gynffon y Gath <i>Typha latifolia</i> ar y pen gorllewinol. Roedd gorchudd prysgwydd yn bresennol o gwmpas yr ymylon.	
Pwll Dŵr 2	Cronbwll Road King. <i>Juncus</i> sp i'r ymylon a Thafol <i>Rumex</i> sp., Crafan Brân y Mynydd <i>Ranunculus acris</i> , Milddail <i>Achillea millefolium</i> , Ysgall y Maes <i>Cirsium arvense</i> , Danadl <i>Urtica dioica</i> , Laeth y Gaseg <i>Cardamine pratensis</i> a Helygls <i>Epilobium</i> ar yr ymylon. Mae Llines y Dŵr dwys <i>Callitriche</i> a Llinad y Dŵr <i>Lemna minor</i> yn bresennol yn y pwll dŵr.	
Pwll Dŵr 3	Pwll dŵr arafu tua 305m ² o faint a adeiladwyd yn rhan o system ddraenio ffordd fynediad Parc Cybi. Roedd y pwll yn llawn Melyswellt y Gamlas <i>Glyceria maxima</i> a Chynffon y Gath â Mintys y Dŵr <i>Mentha aquatica</i> a Llinesg y Dŵr <i>Callitriche stagnalis</i> . Mae'r pwll wedi'i ffinio i'r dwyrain gan fwnd daear wedi'i blannu â choed sydd wedi tyfu'n grablyd.	

Cyf corff dŵr	Disgrifiad o'r Pwll Dŵr	Llun o'r Pwll Dŵr
Pwll Dŵr 4	Pwll arafu a grëwyd o'r newydd.	
Pwll Dŵr 5	Lleiniau dwys o Hesp <i>Phragmites australis</i> ag ychydig bach o Ddyfrllys Llydanddail <i>Potamogeton natans</i> a mintys y dŵr yn y 10-15% o'r ymyl lle gellid samplu dŵr ohono. Mae'r cyffiniau uniongyrchol yn gymysgedd o sypiau glaswellt hir a Brwyn cyffredin, ynghyd â Blodau Menyn, Mieri <i>Rubus fruticosus</i> , Danadl, Tafol a Gwern <i>Alnus glutinosa</i> a phrysgwydd Helyg <i>Salix</i> sp.	
Pwll Dŵr 6	Mae glaswelltir pori yn amgylchynu llain o laswelltir corsiog â Brwyn, Eithin ac <i>Ulex europaeus</i> a Mieri. Mae'r llain yn terfynu rhwng brigiad carreg a wal gerrig.	

Cyf corff dŵr	Disgrifiad o'r Pwll Dŵr	Llun o'r Pwll Dŵr
<p>Pwll Dŵr 7</p>	<p>Man isel gardd breifat/padog y mae'r perchennog yn hysbysu sydd â hawddfrait ar gyfer draenio'r mynediad tai cyfagos (Penrhyn Geiriol). Mae glaswelltir amwynder yn amgylchynu'r pwll dŵr yn uniongyrchol ac mae ceffylau yn ei bori. Mae'r pwll dŵr yn cynnwys Llinad y Dŵr, ardal fach o Gynffon y Gath, Dyfrllys Llydanddail, Lili'r Dŵr <i>Nymphaeaceae</i>, Llinesg y Dŵr a'r rhywogaeth estron oresgynnol Alaw Canada <i>Elodea canadensis</i>.</p>	
<p>Ffos 1</p>	<p>Wedi'i gorchuddio yn ddwys/yn llawn cyrs. Wedi'i hamgylchynu gan laswelltir corsiog, twmpathog a brwyn. Roedd rhan i'r gorllewin yn cynnwys ardal o ddŵr agored lle cynhaliwyd yr arolygon.</p>	

Cyf corff dŵr	Disgrifiad o'r Pwll Dŵr	Llun o'r Pwll Dŵr
Ffos 2	<p>Mae'r glannau ar ochr y cae yn cael eu sathru yn drwm gan dda byw. Roedd gan y ffos ddyfnder o 0.5 metr gan gynnwys dyfnder gwaddod o tua 0.2 metr. Mae'r ffos tua 2 fetr o led. Ceir glaswellt twmpathog a rhywogaethau brwyn i'r gogledd ar lannau ochr y ffens, sy'n cael eu llenwi gan Fieri dwys tua'r pen deheuol. Roedd y ffos yn cynnal gorchudd da o blanhigion dyfrol lle yr oedd Dyrforon swp-flodeuog <i>Apium nodiflorum</i> yn bennaf.</p>	

ATODIAD D: CANLYNIADAU EDNA



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



ATODIAD E: CANLYNIADAU AROLYGU

Tabl 8. Canlyniadau arolygu

Cyf y Corff Dŵr	Sgôr HSI	Canlyniad eDNA	Dull(iau) Arolygu	YMWELIAD 1	YMWELIAD 2	YMWELIAD 3	YMWELIAD 4
Pwll Dŵr 1	0.67	Negyddol ¹⁴	Dyddiad arolygu	Ni chynhaliwyd arolygon yn y pwll dŵr oherwydd cyfyngiadau mynediad. Arolygir y pwll dŵr hwn yn rhan o broses dylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu A55 Cynllun Prifffyrdd y DU.			
			Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel				
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel				
			Defnyddio tortsh				
			Chwilio am wyau				
			Trapio mewn poteli				
Pwll Dŵr 2	0.76	Negyddol	Dyddiad arolygu	Ni chynhaliwyd arolygon presenoldeb / absenoldeb yn y pwll dŵr yn unol â'r cwmpas y cytunwyd arno			
			Afloywder(1-5) 1-isel, 5 - uchel				
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel				
			Defnyddio tortsh				
			Chwilio am wyau				
			Trapio mewn poteli				
Pwll Dŵr 3	9.76	Negyddol	Dyddiad arolygu	28/04/2021	05/05/2021	12/05/2021	25/05/2021

¹⁴ Yn seiliedig ar ganlyniadau a dderbyniwyd mewn neges e-bost gan Dr Richard Birch (ecoscope) at Kerry Evans (4 Mai 2021) a oedd yn datgan bod Pwll Dŵr 1 wedi cael ei arolygu lawer gwaith gan Dr R.Birch ac na ddarganfuwyd madfallod dŵr cribog erioed. Roedd canlyniadau eDNA arolygon a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020 y cafodd Dr R. Birch afael arnynt, yn negyddol.



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Dogfen Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog (06/21)

Cyf y Corff Dŵr	Sgôr HSI	Canlyniad eDNA	Dull(iau) Arolygu	YMWELIAD 1	YMWELIAD 2	YMWELIAD 3	YMWELIAD 4
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel	1	1	1	2
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel	5	5	5	5
			Defnyddio tortsh	0	4 madfall ddŵr balfog (rhywedd anhysbys)	1 madfall ddŵr balfog ♀ 1 madfall ddŵr balfog (rhywedd anhysbys)	1 madfall ddŵr balfog ♀ 1 madfall ddŵr balfog (rhywedd anhysbys)
			Chwilio am wyau	0	0	0	0
			Trapio mewn poteli	6 madfall ddŵr balfog ♂	3 madfall ddŵr balfog ♂ 1 madfall ddŵr balfog ifanc	4 madfall ddŵr balfog ♂ 5 madfall ddŵr balfog ♀	2 madfall ddŵr balfog ♀
			Rhywogaethau amffibiaid eraill	0	Llyffant melyn a llyffant dafadennog	Llyffant melyn a phenbyliaid	
Pwll Dŵr 4	Amh.	Amh.	Dyddiad arolygu	28/04/2021	05/05/2021	12/05/2021	25/05/2021
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel	5	5	5	3
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel	1	1	1	1
			Defnyddio tortsh	0	0	2 madfall ddŵr balfog ♂	0



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
 email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
 Tel +44(0)1824 704366
 Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Dogfen Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog (06/21)

Cyf y Corff Dŵr	Sgôr HSI	Canlyniad eDNA	Dull(iau) Arolygu	YMWELIAD 1	YMWELIAD 2	YMWELIAD 3	YMWELIAD 4
			Chwilio am wyau	0	0	0	0
			Trapio mewn poteli	Ni thrapiwyd mewn poteli yn y pwll dŵr yn unol â'r cwmpas y cytunwyd arno			
			Rhywogaethau amffibiaid eraill	0	0	Penbyliaid	Penbyliaid (llawer)
Pwll Dŵr 5	0.83	Negyddol	Dyddiad arolygu	Ni chynhaliwyd arolygon presenoldeb / absenoldeb yn y pwll dŵr yn unol â'r cwmpas y cytunwyd arno			
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel				
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel				
			Defnyddio tortsh				
			Chwilio am wyau				
			Trapio mewn poteli				
Pwll Dŵr 6	0.56	Negyddol	Dyddiad arolygu	28/04/2021	05/05/2021	12/05/2021	25/05/2021
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel	1	1	1	1
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel	1	1	1	2
			Defnyddio tortsh	0	0	0	0
			Chwilio am wyau	0	0	0	0
			Trapio mewn poteli	0	0	0	0
			Rhywogaethau amffibiaid eraill	0	0	0	0
Pwll Dŵr 7	0.65	Negyddol	Dyddiad arolygu	28/04/2021	05/05/2021	12/05/2021	25/05/2021
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel	1	2	2	2



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ
 email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
 Tel +44(0)1824 704366
 Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Dogfen Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog (06/21)

Cyf y Corff Dŵr	Sgôr HSI	Canlyniad eDNA	Dull(iau) Arolygu	YMWELIAD 1	YMWELIAD 2	YMWELIAD 3	YMWELIAD 4
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel	3	3	4	5
			Defnyddio tortsh	0	0	1 madfall ddŵr balfog ♂ 2 madfall ddŵr balfog ♀	1 madfall ddŵr balfog (rhywedd anhysbys)
			Chwilio am wyau	0	0	0	0
			Trapio mewn poteli	1 madfall ddŵr balfog ♂	0	7 madfall ddŵr balfog ♂ 3 madfall ddŵr balfog ♀	6 madfall ddŵr balfog ♂ 2 madfall ddŵr balfog ♀
			Rhywogaethau amffibiaid eraill	0	0	0	0
Ffos 1	0.83	Negyddol	Dyddiad arolygu	28/04/2021	05/05/2021	12/05/2021	25/05/2021
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel	2	2	2	2
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel	5	5	5	5
			Defnyddio tortsh	14 madfall ddŵr balfog ♂ 6 madfall ddŵr balfog ♀	14 madfall ddŵr balfog ♂ 10 madfall ddŵr balfog ♀	3 madfall ddŵr balfog ♂ 5 madfall ddŵr balfog ♀ 2 madfall ddŵr balfog (rhywedd anhysbys)	16 madfall ddŵr balfog ♂



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13



Dogfen Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog (06/21)

Cyf y Corff Dŵr	Sgôr HSI	Canlyniad eDNA	Dull(iau) Arolygu	YMWELIAD 1	YMWELIAD 2	YMWELIAD 3	YMWELIAD 4
			Chwilio am wyau	0	0	0	0
			Trapio mewn poteli	0	5 madfall ddŵr balfog ♀	6 madfall ddŵr balfog ♂ 3 madfall ddŵr balfog ♀	5 madfall ddŵr balfog ♂
			Rhywogaethau amffibiaid eraill	0	0	0	0
Ffos 2	0.77	Negyddol	Dyddiad arolygu	28/04/2021	05/05/2021	12/05/2021	25/05/2021
			Sgôr Afloywder (1-5) 1-isel, 5 - uchel	1	1	1	1
			Gorchudd llystyfiant yn y pwll dŵr (1-5) 1-isel, 5 - uchel	5	5	5	5
			Defnyddio tortsh	0	0	1 madfall ddŵr balfog (rhywedd anhysbys)	1 madfall ddŵr balfog ♂
			Chwilio am wyau	0	0	0	0
			Trapio mewn poteli	1 madfall ddŵr balfog ♂	1 madfall ddŵr balfog ♂	3 madfall ddŵr balfog ♂	0
			Rhywogaethau amffibiaid eraill	0	0	0	0



Office 1, Llys Clwyd Cwrt Y Dderwen, Ffordd Celyn, Ruthin, Denbighshire LL15 1NJ

email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com

Tel +44(0)1824 704366

Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13

